# CYNLLUN GWELLA YSGOL HENBLAS – EDRYCH YN OL AC I'R DYFODOL!

## RHAI O UCHAFBWYNTIAU'R FLWYDDYN 2024-25

*"Wedi cael sesiwn diddorol dros ben efo'r disgyblion heddiw yn trafod ffoaduriaid.Wedi mwynhau yn arw – roedd gan y plant lawer o gwestiynau da ac yn amlwg wedi gwneud llawer o waith paratoi."*
*Swyddog cefnogi ffoaduriaid Cyngor Sir Ynys Mon*

"An awesome day at Ysgol Henblas! The kids were really good and got involved. (The staff were lovely too!)
Andy Birch, Dime1Graffiti

"Children were very thoughtful and did extremely well in answering complex questions."
Kazia Cannon Paid Cyffwrdd Dweud



"Wir wedi mwynhau cydweithio gyda'r dosbarth! Pawb wedi canolbwyntio'n dda a trio eu gorau glas. Gobeithio gai ddod eto!"
Barri Gwilliam,Gwasnaeth Cerdd William Mathias

"Mae wedi bod yn bleser pur cael dyfeisio chwedl gyda blwyddyn2 heddiw!Roedd y disgyblion yn hynod frwdfrydig a llawn chwilfrydedd a dychymyg! Diolch am y croeso a'r cinio!! Edrychaf ymlaen yn arw i ddod nol i Ysgol Henblas yn y dyfodol agos." Gwion Aled, Prosiect dalgylch lleol



"Wel am fore gwych yn Ysgol Henblas, tro cyntaf yn yr ysgol ac roedd y croeso yn un arbennig iawn gan yr holl staff a'r plant. Roedd ymddygiad y plant yn wych, yn gwrando yn ofalus ar bob cyfarwyddyd o ran be oedd angen gwneud cyn recordio podlediad, plant cwrtais dros ben. Diolch eto am y croeso."
Marc Griffiths BBC Radio Cymru

"Dim ond isio gyrru neges bach i'r dosbarth Glas a Sharon a Glenys a phawb i ddeud 'da iawn' am heddiw!
Mor braf eu cael, a mor hyfryd clywed ein mynychwyr yn canmol mor gwrtais ac annwyl oedd y plant. Maent hefyd yn weithgar, ac mae oddi allan i'r Neuadd wedi tacluso'n arw! Diolch!"
Sioned Williams, Neuadd Llangristiolus



"Diolch o galon am y croeso cynnes ar lawr y dosbarth. Braf iawn ymweld a dosbarth brwdfrydig ac ymroddgar.Cwestiynau ardderchog gan y plant.Wedyn pawb yn mwynhau potyn bach o Mon ar Lwy – a bu tawelwch!"
Helen Holland Mon ar Lwy

"Cawsom fore hyfryd yn rhoi farnais fflworid ar ddannedd plant Blwyddyn Meithrin, Derbyn,1,2.Roedd y plant yn dda iawn ac yn ymddwyn yn dda.Cafwyd croeso cynnes gan staff yr ysgol" Sian Parry Cynllun Gwen



"Me and Lisa came to the school to do some cultural mapping. The students were very well behaved, imaginative and up for anything! We are so impressed. Thank you so much."
Maya a Lisa, PMP

"Diolch am fy ngwahodd i'r sesiwn gyrfaoedd yn yr ysgol ddoe. Roedd yn fraint cael siarad am archeoleg a'r nifer o wahanol yrfaoedd sydd ar gael yn y maes i blant mor gwrtais, chwilfrydig a dymunol. Roedd pob un yn awyddus i ddysgu."
Sian Evans, Swyddog Allgymorth ag Addysg Heneb

"Caswom lawer o hwyl gydag aelodau o glwb yr Urdd.Roedd pob un ohonynt yn gwrtais, yn glên ac wedi cymryd rhan ymhob un o'r gemau.Diolch o galon am y croeso ac edrychwn ymlaen i'ch gweld eto!"
Iwan a Lowri, Staff Urdd Gobaith Cymru

*"Really enjoyed coming to Ysgol Henblas and teaching the students about RAF roles."*
*RAF Valley*

*"Came to do school photos. Pupils were all well behaved for individual photos and groups. Everything was very efficient and went smoothly."*
*Ryan Peake School Photographer*









**Meysydd Adolygu** - Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau parhaus o fewn y meysydd canlynol:
•Arweinyddiaeth;
•Cwricwlwm;
•Addysgu a Dysgu;
•Lles, Tegwch a Chynhwysiant;

## Arweinyddiaeth

- Hybu diwylliant o wella sydd yn treiddio’r ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant
- Cyfrifoldebau’n cael eu rhannu’n effeithiol.
- Staff yn dysgu gan ei gilydd yn effeithiol iawn.
- Mae gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad pellach a disgwyliadau uchel gan weithio gyda’r gymuned.
- Gweledigaeth sy’n canolbwyntio ar Gymreictod, meithrin parch ac annog pawb i wneud eu gorau glas.



## Cwricwlwm

- Cynnig cwricwlwm cyfoethog sy’n darparu profiadau dysgu ysgogol i hyrwyddo a meithrin dychymyg disgyblion yn llwyddiannus.
- Wedi ei seilio’n gadarn ym milltir sgwar y disgyblion.
- Staff yn cydweithio’n agos â rhieni ac aelodau’r gymuned i godi ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o’u cynefin.
- Trwy ymweliadau addysgol buddiol, mae disgyblion yn cael profiadau byw a chyffrous.
- Cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion wneud cysylltiadau pwrpasol â themâu arwyddocaol ym mywydau pobl leol.



## Addysgu a dysgu

- Defnyddio llawer o ddulliau addysgu effeithiol yn llwyddiannus.
- Staff yn holi’r disgyblion i bwrpas ac yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol gan ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau.
- Disgyblion yn cael eu cynnwys wrth drafod yr hyn sy’n bwysig i’w gyflawni o fewn y gweithgareddau er mwyn llwyddo.
- Disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol gan wneud eu dewisiadau eu hunain.

## Lles, Tegwch a Chynhwysiant

- Darparu cymorth pwrpasol ar gyfer y disgyblion gan gydweithio’n effeithiol ag ystod eang o asiantaethau allanol.
- Olrhain cynnydd y disgyblion gan ddefnyddio’r wybodaeth er mwyn darparu cymorth ychwanegol er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau.
- Sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu heffeithio gan dlodi ac amddifadedd a chyfle cyfartal a disgwyliadau uchel o bob disgybl.

# LLWYDDIANT BLAENORIAETHAU 2024-25

### Gwella effeithiolrwydd ychydig o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm.

- Arferion tebyg ym mob dosbarth sydd yn adeiladu ar lefel her disgyblion
- Sgiliau mathemateg yn cael eu drilio yn ddyddiol a’r disgyblion yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth ymateb.
- Cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu sgiliau bywyd go iawn drwy fathemateg o fewn gweithagreddau trawsgwricwlaidd.

### Datblygu yn ddisgyblion digidol gwybodus

- Y camau cynnydd yn cael eu hateb yn effeithiol ac yn cael eu hadlewyrchu drwy’r ysgol.
- Cynnydd a datblygiad amlwg i weld wrth i’r disgyblion symud drwy’r ysgol a phrofiadau dysgu strwythuredig wedi eu darparu.
- Disgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos sgiliau ymarferol a dealltwriaeth glir o’r prif gysyniadau a ddysgir, gan gyfrannu at amgylchedd dysgu llwyddiannus.
- Lefel gwybodaeth y disgyblion wedi sefydlu’n gadarn a chynnydd yn nealltwriaeth y disgyblion wrth iddynt drafod elfennau e-ddiogelwch ar lefel bersonol.

### Gwella cyfleoedd i ddsgyblion weithredu ar adborth cyfoethog fel eu bod yn symud ymlaen yn eu dysgu

- Staff a disgyblion yn pennu meini prawf buddiol a chyfle i’w gwirio yn annibynnol
- Deilliannau clir clodwiw yn iaith y plant
- Cyfleoedd llwyddiannus ar gyfer asesu
- Lefel her effeithiol iawn i ddisgyblion

### Gwella medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm.

- Y rhan fwyaf o’r disgyblion yn trafod eu hysgrifennu yn frwdfrydig ac yn fanwl.
- O ganlyniad i’r defnydd medrus o’r waliau gweithio yn y dosbarthiadau mae llawer o’r disgyblion yn gallu adnabod y camau penodol yn y broses ysgrifennu
- Cyfleoedd dyfeisgar i ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau yn arwain at ddisgyblion sydd yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol a ffuglennol yn llwyddiannus.

Edrych i'r dyfodol!
Rydym yn datblygu'r ysgol ar sail blaenoriaethau cenedlaethol, lleol a'r hyn mae ein cymuned yn ei ddweud wrthym.




# BLAENORIAETHAU GWELLA 2025-26

## 1

Sicrhau fod elfennau statudol o Cwricwlwm i Gymru - yn benodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael sylw dyledus.

- Dealltwriaeth gynyddol gadarn gan holl staff yr ysgol o ofynion Crefydd, Gwethoedd a Moeseg.
- Cynlluniau gwaith yn dangos tasgau cyfoethog a diddorol ar draws y camau cynnydd.
- Llyfrau'r disgyblion yn dangos profiadau cyfoethog.
- Cysondeb mewn darpariaeth o'r agweddau yma i safon dda ar draws yr ysgol.

## 2

Adfer a chodi safonau llafaredd y Gymraeg er mwyn gwella hyfedredd a defnydd o'r iaith; ac ansawdd gwaith Cymraeg; ar draws y cwricwlwm.

- Cryfhau y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg yn cynnwys sicrhau tasgau llafar cyfoethog e.e. drama, perfformio, gwaith byrfyfyr, trafodaethau ayb
- Adeiladu a datblygu arferion da i gryfhau'r Gymraeg ymhellach e.e. defnydd cyson o ddull Pie Corbett i ddysgu storïau, hwiangerddi, barddoniaeth, chwedlau ar y côf; drilio partymau ieithyddol
- Cryfhau a gwella ymgysylltiad rhieni ymhellach er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad llafar Cymraeg eu plentyn

## 3

Gwella cyfleoedd i ddisgyblion weithredu ar adborth cyfoethog fel eu bod yn symud ymlaen yn eu dysgu

- Disgyblion yn gwella eu gwaith yn annibynnol drwy gyfeirio at y meini prawf llwyddiant ac ymateb yn llwyddiannus i adborth gan gyfoedion ac athrawon
- Datblygu sgiliau metawybyddol disgyblion a chymryd cyfrifoldeb gynyddol am y camau nesaf yn eu dysgu gan ystyried adborth blaenorol/targedau i wella wrth weithio ar dasgau newydd



Gwefan Ysgol Henblas: http://ysgolhenblas.org/

GWREIDDIAU I DYFU – ADENYDD I HEDFAN!